# Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches
# Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol
# Cwestiynau Cyffredin

Caiff Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (y Bartneriaeth), a sefydlwyd yn 2001, ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i hwyluso arweinyddiaeth strategol, cyngor a chydgysylltu mewn perthynas ag ymfudo. Cynhelir y Bartneriaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i adlewyrchu ei rôl ledled Cymru gyfan mewn perthynas ag ymfudo.

Mae Cydlynydd Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches (UASC) y Bartneriaeth yn goruchwylio'r gwaith o drosglwyddo plant i Gymru trwy gynlluniau amrywiol y Swyddfa Gartref ac yn darparu cefnogaeth i gynghorau a phartneriaid eraill a'u helpu i gynyddu eu gallu.

| |
|---|
| Pwy yw plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (UASC)? |
| Beth yw'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (CTC)? |
| Trwy ba lwybrau all plant UASC gyrraedd Cymru? |
| Beth yw'r model ar gyfer y CTC yng Nghymru? |
| Beth yw proffiliau'r plant sy'n cyrraedd trwy'r CTC? |
| Pa gefnogaeth mae cynghorau yn ei darparu i blant UASC? |
| Pa fath o lety mae plant UASC yn ei gael fel arfer? |
| A fydd angen asesiad oedran ar bobl ifanc a drosglwyddir trwy'r CTC ac a oes mwy o wybodaeth am hyn? |
| A yw cynghorau'n derbyn unrhyw gyllid i gefnogi plant UASC? |
| Pa gefnogaeth mae Cydlynydd UASC y Bartneriaeth yn ei chynnig? |
| Pa gefnogaeth sydd ar gael i Gymru gan y trydydd sector ar gyfer plant UASC? |
| Beth yw Dull sy'n Seiliedig ar Drawma a sut mae'n berthnasol i blant UASC ? |
| Pa statws cyfreithiol sydd gan blant UASC? |
| A yw plant UASC yn gallu dod â'u teuluoedd drosodd neu a ydynt yn cael eu haduno â'u teuluoedd? |
| Beth yw manylion cyswllt Cydlynydd UASC y Bartneriaeth i gael rhagor o wybodaeth? |

## Pwy yw plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (UASC)?

Mae rheolau mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn diffinio plentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches fel un sydd:

- o dan 18 oed pan mae'r cais am loches yn cael ei gyflwyno
- yn hawlio lloches yn ôl ei hawl ei hun
- wedi'i wahanu oddi wrth y ddau riant ac nid yw'n derbyn gofal gan oedolyn sydd yn ôl y gyfraith neu a oedd yn arfer bod â chyfrifoldeb dros wneud

hynny.

Cyfeirir at Blant Ar Eu Pen Eu Hunain yn Ceisio Lloches fel 'UASC', **'plant wedi'u gwahanu'** neu 'bobl ifanc ar eu pen eu hunain'. Maen nhw'n blentyn / unigolyn ifanc sydd y tu allan i'r wlad y maent yn tarddu ohoni a heb rieni na gwarcheidwaid cyfreithiol i ofalu amdanynt a'u hamddiffyn.
Y cyngor lle mae'r plentyn yn ymddangos gyntaf sydd fel arfer yn gyfrifol am eu gofal.

## Beth yw'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (CTC)?

Datblygwyd y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol gwreiddiol ar sail cytundeb **gwirfoddol** rhwng cynghorau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod plant ar eu pen eu hunain yn cael eu dosbarthu'n decach ar draws y cynghorau. Bwriad y CTC yw sicrhau nad oes unrhyw gyngor unigol yn wynebu cyfrifoldeb anghymesur dros letya a gofalu am blant ar eu pen eu hunain, yn rhinwedd y ffaith mai yno y cyrhaeddodd y plant ar eu pen eu hunain gyntaf (e.e. Gwasanaethau Plant Caint).

Mae'r CTC diwygiedig yn gweithredu ar sail rota genedlaethol ac fe gafodd ei wneud yn **orfodol** ledled y DU ym mis Rhagfyr 2021, sy'n golygu bod gofyn i adrannau Gwasanaethau Plant pob cyngor fod yn rhan ohono.

## Trwy ba lwybrau all plant UASC gyrraedd Cymru?

**Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol -** gweler uchod.
**Cyraeddiadau 'Digymell'** - mae'r rhan fwyaf o blant UASC yn cyrraedd yn y DU ohonynt eu hunain ac yn cyfarfod rhywun naill ai yn y porth mynediad, yn yr Uned Derbyn Ceiswyr Lloches yn Croydon, neu fel arall drwy'r heddlu / gwasanaethau cymdeithasol .
Gall **plant sy'n ffoaduriaid**, (nad oes rhaid iddyn nhw fynd trwy'r broses ceisio lloches), gyrraedd y DU o dan Gynllun Adsefydlu y DU.
**Llwybr Ceisio Lloches Oedolion –** gall pobl ifanc y mae'r Swyddfa Gartref neu gynghorau eraill yn 'anghytuno â'u hoedran', gael eu rhoi mewn llety gwasgaru lloches i oedolion yng Nghymru. Wrth gyrraedd Cymru mae'n bosibl y caiff y bobl ifanc hyn eu hatgyfeirio i'r Gwasanaethau Plant yn eu hardal ac y bydd angen asesiad oedran arnyn nhw.

# Beth yw'r model ar gyfer y CTC yng Nghymru?

Mae'r **CTC** yn cynnwys rota genedlaethol. Mae'r Swyddfa Gartref yn disgwyl i bob cyngor dderbyn pobl ifanc i'w gofal, oni bai eu bod yn mynd dros y trothwy o 0.01% o blant UASC yn eu poblogaeth blant. Fel arfer, bydd angen lletya a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol y maent yn cyflwyno iddo yn ddigymell bob amser (ac nid ydynt yn cyfrif tuag at y dyraniadau CTC cynghorau hynny).

Mae'r Swyddfa Gartref wedi dangos y bydd gofyn i Gymru dderbyn 60 o blant ar eu pen eu hunain dros 4 cylched. Ni nodir dros ba gyfnod y bydd y 4 cylched yn cael eu gwasgaru.

## Beth yw proffiliau'r plant sy'n cyrraedd trwy'r CTC?

Bydd Cydlynydd UASC Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru yn rhannu manylion y plentyn a drosglwyddir; byddai'n rhaid i'r cynghorau ystyried sawl math o lety yn ddibynnol ar oedran ac anghenion iechyd ac addysg y bobl ifanc. Yn nodweddiadol, mae'r mwyafrif helaeth o blant UASC sy'n cyrraedd y DU yn wrywod 14 i 17 oed. Yn 2024, cafwyd 4,107 o geisiadau gan blant ar eu pennau eu hunain. Sudan oedd gwlad genedigol y nifer mwyaf yn 2024 (Ffeithiau allweddol ar yr ystadegau diweddaraf ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches – Cyngor Ffoaduriaid)

## Pa gefnogaeth mae Cynghorau yn ei darparu i blant UASC?

Er nad yw deddfwriaeth a pholisi mewnfudo yn ddatganoledig yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau y mae pobl ifanc yn eu derbyn yng Nghymru yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, Cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches yn cael ei weld fel **plentyn yn anad dim** ac mae'n rhaid i unrhyw gymorth a chefnogaeth fod yn seiliedig ar roi anghenion y plentyn yn gyntaf.

Mae plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches yn blant sy'n derbyn gofal o dan Adran 76 *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

Mae gan bobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain yn y DU, heb unrhyw deulu na ffrindiau i'w cefnogi, hawl i gael asesiad, cefnogaeth a diogelwch yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar asesu a diwallu anghenion, ac mae'r hawliau hynny yn aros nes bo'r unigolyn ifanc yn gadael y DU neu nes bo'r anghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd arall.

Caiff plant UASC eu hystyried yn **'blant sy'n derbyn gofal'** ac felly byddant yn cael llety, cymorth ariannol, gweithiwr cymdeithasol a mynediad at addysg a gwasanaethau iechyd. Bydd gan y rhan fwyaf o blant UASC yng Nghymru hefyd hawl i gymorth 'gadael gofal'.

Dylai pob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru o oedran ysgol statudol gael addysg llawn amser, sy'n cyd-fynd â lefel eu cyfnod allweddol.

Mae gan bobl ifanc sy'n agored i niwed a risgiau penodol sy'n deillio o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed arall yr hawl i gymhwyso *Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan* a hawliau ar gyfer y plentyn / unigolyn ifanc i lif 'ystyriaeth lles pennaf' o egwyddorion *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar*

*Hawliau'r Plentyn* (CCUHP) ac o *ddyletswydd Adran 55 Deddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009* ar Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig, (UKVI).

Mae gan bob cyngor yng Nghymru rwymedigaeth i gynnig 'llais' proffesiynol annibynnol neu **eiriolaeth** i bob plentyn ac unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal, a phlant sydd angen gofal a chymorth, sy'n dymuno cymryd rhan neu roi sylwadau am benderfyniadau am eu bywydau.

Mae hyn hefyd yn berthnasol i blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (Gweler tudalen 5 'Cymorth y Trydydd Sector').

## Pa fath o lety mae plant UASC yn ei gael fel arfer?

Mae'r llety sy'n cael ei gynnig i blant UASC yn dibynnu ar eu hoedran a'u gallu i gefnogi eu hunain. Ar ôl i'r cyngor gynnal asesiad o'u hanghenion, bydd pobl ifanc naill ai'n cael eu rhoi mewn lleoliadau maethu, llety â chymorth neu lety annibynnol neu led-annibynnol.

## A fydd angen asesiad oedran ar bobl ifanc a drosglwyddir trwy'r CTC ac a oes mwy o wybodaeth ar gael am hyn?

Efallai y bydd rhai pobl ifanc y mae'r Swyddfa Gartref yn 'anghytuno â'u hoedran' yn cael eu hatgyfeirio i Gymru heb gael asesiad oedran llawn sy'n cydymffurfio â dyfarniad Merton (bydd llawer o bobl ifanc wedi cael eu hasesu gan swyddogion mewnfudo yn seiliedig ar eu hymddangosiad corfforol a'u hymarweddiad).

Nid yw'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yn nodi'n benodol dyletswydd i asesu oedran. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i gefnogi plant yn golygu **dyletswydd i asesu a ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant**. Os nad oes gan y Cyngor unrhyw amheuaeth am oedran honedig yr unigolyn ifanc, nid oes angen cynnal asesiad oedran. Ond os oes amheuaeth, dylid cynnal asesiad er mwyn penderfynu p'un a ddylid rhoi mynediad i'r gwasanaethau cymdeithasol plant ai peidio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Pecyn Gwaith Asesu Oedran** sy'n rhoi gwybodaeth i weithwyr cymdeithasol ynglŷn â chynnal asesiad oedran. Gellir gweld y pecyn gwaith trwy'r ddolen gyswllt ganlynol Unaccompanied asylum seeking children: age assessment toolkit | GOV.WALES

## A yw cynghorau'n derbyn unrhyw gyllid i gefnogi plant UASC?

Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cymorth ariannol i gynghorau er mwyn gofalu am blant UASC a phlant UASC sydd bellach yn gadael gofal.Gellir gweld y cyfarwyddiadau ariannu llawn drwy'r ddolen gyswllt ganlynol;

Cyfarwyddiadau Ariannu'r Swyddfa Gartref ac mae angen cyflwyno hawliadau ariannol i'r Swyddfa Gartref.

## Pa gefnogaeth mae Cydlynydd UASC y Bartneriaeth yn ei chynnig?

Rôl Cydlynydd UASC y Bartneriaeth yw hwyluso gweithrediad y CTC a phlant UASC sy'n cyrraedd yn 'ddigymell' ledled Cymru. Bydd y Cydlynydd UASC yn gweithio'n agos â'r Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Plant ac ystod eang o bartneriaid ledled Cymru i ganfod lleoliadau priodol ar gyfer plant, darparu proses baru, cydlynu a throsglwyddo effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gweithio i sicrhau bod y cymorth a'r gwasanaethau priodol yn eu lle.

Gall y Cydlynydd UASC ddarparu cyngor ac arweiniad i gynghorau yng Nghymru am unrhyw faterion sy'n ymwneud â chefnogi a gofalu am blant UASC ac am y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol.

## Pa gefnogaeth sydd ar gael i Gymru gan y trydydd sector ar gyfer plant UASC?

TGP Cymru - Rhaglen Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Ifanc
Mae TGP Cymru yn darparu gwaith Eiriolaeth, Cyfranogi ac ymgynghori gyda chynghorau ledled Cymru ac yn cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc hyd at 25 oed.

Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru yw'r sefydliad blaenllaw yng Nghymru sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin perthnasoedd da tuag at geiswyr lloches a ffoaduriaid. Maent yn darparu gwasanaethau cynghori a chymorth arbenigol i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Migrant Help
Mae Migrant Help yn rhedeg llinell gymorth 24/7 am ddim i **holl** geiswyr lloches y DU. Gallant gynorthwyo gyda cheisiadau am gymorth, adrodd am broblemau cynnal a chadw mewn lletyau lloches, ceisiadau am gymorth a chyngor am unrhyw ymholiadau yn ymwneud â cheisio lloches. Gall plant UASC sy'n Gadael Gofal gysylltu â Migrant Help os yw eu cymorth gan y cyngor yn dod i ben. Byddai angen i gynghorau gysylltu â nhw hefyd os yw UASC wedi cael asesiad oedran ac yn cael ei ystyried yn oedolyn.

NYAS
Mae NYAS yn sefydliad sy'n seiliedig ar hawliau sy'n darparu **eiriolaeth** i rai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Ochr yn ochr â'u cymorth eirioli maent yn darparu rhaglenni cyfranogi i bobl ifanc sydd wedi cael profiad o'r system ofal gan gynnwys iechyd a lles meddyliol, dulliau plismona ar sail hawliau plant,

cymorth i ferched ifanc sy'n feichiog / sydd â phlant, plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a phobl ifanc ddigartref.

Barnardo's
Mae Barnardo's yn darparu cymorth arbenigol uniongyrchol i blant sydd wedi cael eu masnachu. Maent yn cynnal Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Masnachu mewn Plant Annibynnol arbenigol yng Nghymru sy'n;

- meithrin perthnasoedd ymddiriedus gyda phlant sydd wedi'u masnachu i'w helpu i adeiladu dyfodol positif.
- helpu plant i ganfod eu ffordd trwy'r systemau cyfiawnder troseddol, mewnfudo a gofal cymdeithasol.
- rhoi cymorth ymarferol, megis help gydag anghenion tai, meddygol ac addysg.
- rhoi cymorth emosiynol a seicolegol.
- hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant i adnabod arwyddion masnachu plant a gwybod sut i gefnogi plant sydd wedi cael eu masnachu.

Y Groes Goch Brydeinig
Y Groes Goch Brydeinig yw'r darparwr annibynnol mwyaf yn y DU ar gyfer gwasanaethau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Maent yn cynnig help mewn argyfwng, cymorth unigol a gwaith achos, gwasanaethau arbennig i blant a theuluoedd, a help i aduno teuluoedd.

## Beth yw Dull sy'n Seiliedig ar Drawma a sut mae'n berthnasol i blant UASC ?

Mae Ymchwil yng Nghymru yn dangos y gall plant UASC fod wedi cael anawsterau penodol o ran cael eu gwahanu oddi wrth riant / colli rhiant, camdriniaeth a chamfanteisio ar blant, yn enwedig ar y siwrnai, gan fod yn dyst i neu ddioddef trais a diffyg cymorth cymdeithasol ac emosiynol i ymdopi â thrallod. Mae dull sy'n seiliedig ar drawma yn cydnabod y ffactorau hyn a beth a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc i leihau'r tebygolrwydd o ddioddef trawma eto neu effeithiau hirdymor  Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), a chefnogi gwytnwch. Mae ACE Aware Wales hefyd wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

**Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod mewn poblogaethau plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches**
**Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Phlant Ffoaduriaid yn y 1930au yn y DU: Hanes yn Llunio'r Dyfodol**

## Pa statws cyfreithiol sydd gan blant UASC?

Mae'n rhaid i bob polisi ac ymarfer ceisio lloches ac ymfudo gydymffurfio â'r ddyletswydd i drin buddion pennaf y plentyn fel y **brif ystyriaeth** ym mhob cam o'r broses. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i holl swyddogaethau'r Swyddfa Gartref ac

i'r holl
asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant, beth bynnag fo statws mewnfudo'r plentyn.

Mae hyn yn golygu bod y broses ar gyfer hawlio lloches fel plentyn ychydig yn wahanol i'r broses ar gyfer oedolion. Mae'n rhaid i blant gael eu cyfweld er mwyn

hawlio lloches gan weithwyr achos/cyfweld sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, ac mae'n bosibl na fydd plant dan 12 oed, neu blant hŷn â diffyg gallu, yn cael eu cyfweld o gwbl.

Mae'r Swyddfa Gartref yn debygol o roi un o'r tri statws canlynol i blentyn UASC;

- **Caniatâd UASC** - Mae plentyn dan 17 ½ oed, sydd wedi ceisio lloches ond sydd wedi methu â chael statws ffoadur a diogelwch dyngarol, yn cael caniatâd cyfyngedig os nad oes trefniadau derbyn digonol yn y wlad y byddai'n dychwelyd iddi.

- **Statws Ffoadur** - mae hwn yn ddilys am 5 mlynedd. Ar ôl hynny gall yr unigolyn ifanc wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros.

- **Diogelwch Dyngarol:** a roddir os nad yw'r Swyddfa Gartref yn derbyn fod y plentyn yn ateb meini prawf y Confensiwn Ffoaduriaid. Mae'n cael ei roi os yw eu hamgylchiadau unigol yn golygu ei bod yn rhy beryglus iddyn nhw ddychwelyd i'r wlad y maent yn tarddu ohoni. Mae'n ddilys am bum mlynedd ac ar ôl hynny gallant wneud cais am **ganiatâd amhenodol i aros**.

Mae gan blant UASC hawl i gael cyngor cyfreithiol am ddim ac mae nifer o gyfreithwyr mewnfudo yng Nghymru sy'n arbenigo mewn darparu cyngor i geiswyr lloches.

## A yw plant UASC yn gallu dod â'u teuluoedd drosodd neu a ydynt yn cael eu haduno â'u teuluoedd?

Os yw plant UASC yn datgelu bod ganddynt deulu yn y DU, mae'n rhaid i'r cyngor gynorthwyo'r unigolyn ifanc i gadw mewn cysylltiad â'r teulu.

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn cynnig gwasanaeth olrhain teuluoedd i unrhyw bobl ifanc sydd wedi colli cysylltiad â'u teuluoedd, yn rhan helaeth o'r byd.

O dan Reolau Mewnfudo, nid yw plant UASC yn gymwys i wneud cais am aduniad ag aelodau o'u teulu dramor.

## Beth yw manylion cyswllt Cydlynydd UASC y Bartneriaeth i gael rhagor o wybodaeth?

E-bostiwch WSMPComms@wlga.gov.uk gan nodi 'ymholiad UASC / CTC' fel pwnc eich neges.